**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

**DEDDF YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, TROSEDDU A PHLISMONA 2014 a Rheoliadau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona (Cyhoeddi Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus) 2014**

**GORCHYMYN ALCOHOL (GWARCHOD RHAG YFED MEWN MAN CYHOEDDUS) (LLANBEDR PONT STEFFAN) 2017**

Mae **Cyngor Sir Ceredigion County Council** ("y Cyngor") drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn Gwarchod Man Cyhoeddus canlynol o dan adrannau 59, 63, 67 a 68 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("y Ddeddf").

Gellir galw'r Gorchymyn hwn yn "Orchymyn Alcohol (Gwarchod Rhag Yfed Mewn Man Cyhoeddus) (Llanbedr Pont Steffan) Cyngor Sir Ceredigion 2017" ac fe ddaw i rym ar **20 HYDREF 2017** a bydd yn dal mewn grym am gyfnod o dair blynedd, oni chaiff ei ymestyn drwy orchmynion pellach yn unol â phwerau statudol y Cyngor.

**Rhagarweiniad**

5. Mae pobl yn yfed alcohol ac yn bod yn feddw mewn mannau cyhoeddus yn arwain at fwy o ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu ac aflonyddu a bygwth aelodau o'r cyhoedd yn y mannau cyhoeddus hynny. Mae gwahardd yfed alcohol ynghanol tref Llanbedr Pont Steffan wedi cael effaith gadarnhaol o ran lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a bygythiol.

6. Mae'r Cyngor yn fodlon fod y gweithredoedd hyn, sef yfed alcohol, o'u cyflawni mewn mannau cyhoeddus yn nhref Llanbedr Pont Steffan, wedi cael effaith andwyol ar ansawdd bywydau pobl sy'n byw yn yr ardal, ac mae'n debygol y caiff y gweithredoedd hyn eu cyflawni mewn mannau cyhoeddus yn yr ardal honno, ac y bydd hynny'n cael effaith andwyol. Mae effaith y gweithredoedd hyn yn debygol o fod yn gyson ac yn barhaus i'r fath raddau fel bod y gweithredoedd yn afresymol, a bod cyfiawnhad dros y cyfyngiadau a bennir yn y Gorchymyn hwn.

7. Mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i bob man cyhoeddus yn nhref Llanbedr Pont Steffan a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ac a ddynodir ar y map sy'n amgaeedig. Mae "man cyhoeddus" yn golygu unrhyw le y mae gan y cyhoedd neu unrhyw garfan o'r cyhoedd fynediad ato, drwy dalu neu beidio, a hynny drwy hawl neu drwy ganiatâd hysbys neu ymhlyg. Mae hynny'n

cynnwys strydoedd, ffyrdd, palmentydd, lleiniau glaswellt, ardaloedd i gerddwyr, seddi, mannau amwynder, parciau a meysydd parcio.

8. Nid yw'r Gorchymyn yn gwahardd yfed alcohol na meddu ar alcohol mewn man cyhoeddus, neu ran o fan cyhoeddus, lle caiff hynny ei awdurdodi drwy drwydded, gan gynnwys tafarndai a chlybiau. Caiff safleoedd sy'n destun Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro eu heithrio hefyd.

**Effaith y Gorchymyn**

3. Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd yfed alcohol yn y mannau cyhoeddus hynny a restrir yn yr Atodlen i'r hysbysiad hwn.

4. Effaith y Gorchymyn hwn yw, os bydd swyddog yr heddlu â rheswm i gredu fod rhywun yn yfed alcohol yn un o'r mannau cyhoeddus yn yr Atodlen, neu wedi bod, neu'n bwriadu gwneud, yna gall y swyddog hwnnw fynnu nad yw'r person yn yfed yr alcohol, neu unrhyw sylwedd y mae gan y swyddog reswm i gredu mai alcohol ydyw, yn y mannau hynny, neu gall y swyddog fynnu bod y person yn ildio'r alcohol neu'r cynhwysydd sy'n ei ddal i'r swyddog. Yna gall swyddog yr heddlu waredu unrhyw alcohol a gaiff ei ildio.

**Troseddau**

3. Yn unol ag adran 63 o'r Ddeddf, mae methu ag ufuddhau cais gan swyddog yr heddlu i roi'r gorau i yfed alcohol yn y mannau hynny, neu fethu ag ufuddhau cais gan swyddog yr heddlu i ildio'r alcohol neu'r cynhwysydd sy'n ei ddal, a hynny heb esgus rhesymol, yn drosedd o dan y Ddeddf.

4. Os cyflawnir trosedd o dan y Ddeddf gall rhywun:
    a. Gael hysbysiad cosb o £50 am greu anhrefn; neu
    b. Gael ei arestio a'i erlyn gan arwain at ddirwy lefel 2 (uchafswm o £500 ar hyn o bryd)

Rhoddwyd o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Ceredigion ar hwn y_ _ _ _diwrnod o Hydref yn y flwyddyn Dwy Fil ac Un Deg Saith.

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN )
CYNGOR SIR CEREDIGION )
ar hyn ym mhresenoldeb:- )

_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ Cadeirydd

_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Cyfreithiol

7618

## ATODLEN

Ardaloedd yn Llanbedr Pont Steffan sy'n rhan o'r Gorchymyn as yn "fannau cyhoeddus" :

- Stryd y Coleg (A482) o Sgwâr Harford i'w chyffordd â Heol y Gogledd a Ffordd y Bryn
- Sgwâr Harford
- Stryd y Bont (A492) o Sgwâr Harford i Rif. 48 gyferbyn â'r lôn sydd ar bwys y Stryd Newydd
- Ffordd y Bryn o'i chyffordd â Ffordd yr Eglwys i gylchfan ar bwys Heol y Gogledd a Ffordd y Coleg
- Stryd yr Eglwys hyd at Eglwys San Pedr
- Stryd Fawr (A475) o Sgwâr Harford i'w chyffordd â Rhes Terrace a Stryd yr Eglwys
- Stryd y Farchnad
- Ffordd y Cambria / meysydd parcio ar bwys Ffordd y Bryn
- Cofeb Rhyfel Parc Yr Orsedd a'r ardal amwynderol wrth y cornel â Ffordd y Bryn a Heol y Gogledd
- Maes Parcio'r Archfarchnad oddi ar Stryd y Farchnad a Ffordd y Bryn
- Parc Rhes Y Deml (a elwir hefyd yn Barc St. Germain-Sur-Moine)
- Rhan o Res Y Deml
- Heol Sant Tomos (gan gynnwys y ti'r ger llaw'r Is-Orsaf Drydan)
- Maes parcio'r Cwmins (ger llaw Rhes Fuddug) a'r man eistedd palmantog
- Tir Eglwys Sant Pedr

ALCOHOL CONSUMPTION IN PUBLIC SPACE PROTECTION ORDER - LAMPETER (2017)

GORCHYMYN YFED ALCOHOL MEWN GWARCHOD GWAGLEOEDD CYHOEDDUS - LLANBEDR PONT STEFFAN (2017)




ATGYNHYRCHIR Y MAP HWN O DDEUNYDD YR ORDNANCE SURVEY GYDA CHANIATÂD YR ORDNANCE SURVEY AR RAN RHEOLWR LLYFRFA EI MAWRHYDI © HAWLFRAINT Y GORON. MAE ATGYNHYRCHU HEB GANIATÂD YN TORRI HAWLFRAINT Y GORON A GALL HYN ARWAIN AT ERLYNIAD NEU ACHOS SIFIL. CYNGOR SIR CEREDIGION. 100024419. 2010.

THIS MAP IS REPRODUCED FROM ORDNANCE SURVEY MATERIAL WITH THE PERMISSION OF ORDNANCE SURVEY ON BEHALF OF THE CONTROLLER OF HER MAJESTY'S STATIONERY OFFICE © CROWN COPYRIGHT. UNAUTHORISED REPRODUCTION INFRINGES CROWN COPYRIGHT AND MAY LEAD TO PROSECUTION OR CIVIL PROCEEDINGS. CEREDIGION COUNTY COUNCIL. 100024419. 2010.
PRODUCED BY CEREDIGION R&I 28/06/2010